# Mukesh Sharma MBE DL



Role

Ymddiriedolwr a Dirprwy Gadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, a Chadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon

Mae gan Mukesh dros 30 mlynedd o brofiad o hedfan, teithio a thwristiaeth ym marchnadoedd y DU, Iwerddon a rhyngwladol.

Ganed Mukesh Sharma yn Lloegr a'i fagu yng Ngogledd Iwerddon o fewn cymuned India. Mae ganddo ystod eang o brofiad ym maes twf a chaffael busnes, newid sefydliadol, gweithio mewn partneriaeth ac eiriolaeth wrth ddatblygu partneriaethau rhyngwladol.

Mae Mukesh wedi bod yn y diwydiant teithio, twristiaeth a chwmnïau hedfan ers 1982. Mae wedi gweithio yn y DU a thramor, gan arwain ar nifer o gwmnïau mawr yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2016, comisiynwyd Mukesh fel Dirprwy Raglaw Bwrdeistref Sirol Belfast. Derbyniodd Wobr Cyfraniad Eithriadol yng Ngwobrau Aer Lingus Viscount ym mis Mai 2016 am ei gyfraniad sylweddol i'r economi leol a dyfarnwyd MBE iddo yn 2016 am Wasanaethau i'r diwydiant teithio yng Ngogledd Iwerddon.

Mae wedi arwain llawer o fentrau ledled Gogledd Iwerddon i hyrwyddo'r celfyddydau, cydlyniant cymunedol ac atal hiliaeth, sectyddiaeth a throseddau casineb.

Mae Mukesh yn aelod o fwrdd nifer o elusennau gan gynnwys ArtsEkta, Moving on Music ac mae'n aelod o bwyllgor Ymddiriedolaeth y Tywysog Gogledd Iwerddon ac yn gadeirydd bwrdd Gogledd Iwerddon ar gyfer Barnardos. Ers 2006 bu'n gyfarwyddwr g?yl Mela Belfast  ac o 2006-2013 bu'n Gadeirydd Partneriaeth Cysylltiadau Da Cyngor Bwrdeistref Newtownabbey.

Yn 2016, penodwyd Mukesh i Gomisiwn Gweithredol Gogledd Iwerddon ar Fflagiau, Hunaniaeth, Diwylliant a Thraddodiad. Ymgymerodd y comisiwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol ac anwleidyddol, â rhaglen waith i lunio Gogledd Iwerddon yn rhydd o wahanu ac anghydfod. Daeth gwaith y comisiwn i ben yn 2020 gyda chyflwyno adroddiad i'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog.

Penodwyd Mukesh yn Gadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon, ac ymunodd â'r Bwrdd fel Ymddiriedolwr Gogledd Iwerddon, ym mis Awst 2020.